**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 15,957 | 15,132 | (825) | 0 | (825) | (137) |
| Gofal Cartref | 7,451 | 8,067 | 616 | 0 | 616 | (376) |
| Eraill | (122) | 783 | 905 | 0 | 905 | 340 |
| | 23,286 | 23,982 | 696 | 0 | 696 | (173) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | 2,531 | 2,366 | (165) | 0 | (165) | (39) |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 21,336 | 22,060 | 724 | 0 | 724 | (983) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | 3,653 | 3,651 | (2) | 0 | (2) | (16) |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | 3,265 | 3,353 | 88 | 0 | 88 | (44) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **54,071** | **55,412** | **1,341** | **0** | **1,341** | **(1,255)** |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 0 | (371) | (371) | 0 | (371) | (895) |
| Gofal Dydd | 0 | (131) | (131) | 0 | (131) | 301 |
| Gofal Cymunedol | 190 | 830 | 640 | 0 | 640 | 1,077 |
| Eraill | 0 | (16) | (16) | 0 | (16) | (16) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **190** | **312** | **122** | **0** | **122** | **467** |

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol *(gan gynnwys arbedion yr Adran)* | 3,415 | 3,651 | 236 | 0 | 236 | 273 |
| Gwariant Covid19 ym maes Gofal Oedolion | | 0 | 0 | 0 | 0 | 415 |
| Gwariant Ychwanegol Gweithlu Gofal Sgil Covid 19 | 200 | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Defnydd Cronfa Tanwariant yr Adran | | (329) | (329) | 0 | (329) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **3,615** | **3,522** | **(93)** | **0** | **(93)** | **688** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **57,876** | **59,246** | **1,370** | **0** | **1,370** | **(100)** |

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Gwasanaethau Pobl Hŷn** - dan 'Eraill' gorwariant ar Lety Cefnogol gyda chostau cynllun Hafod y Gest ac Awel y Coleg yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gorwariant perthnasol, bu cynnydd hefyd yn y nifer pecynnau taliadau uniogyrchol a thrafferthion gwireddu arbedion. Er y bu llai o alw am Ofal Cartref y llynedd yn sgil Covid, galw cynyddol yn amlwg eleni.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - lleihad yn y galw yn arbennig felly ar ofal cartref.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - achosion newydd costus yn llety cefnogol a phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol.

**Gwasanaethau Darparu** -  staffio uwchlaw lefel y gyllideb a cholled incwm yn faterion yn Gofal Cymunedol, tra fod trosiant staff wedi arwain at danwariant mewn nifer o gartrefi pobl hŷn ac oblygiadau Covid wedi amharu ar ddarpariaeth Gofal Dydd ac felly yn tanwario.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - rhai cynlluniau arbedion yn parhau heb eu gwireddu ond yr effaith yn cael ei leihau gan drosiant staff.

**Cyllideb 2021/22** - eleni, bu i'r adran dderbyn gwerth dros £1.6 miliwn o fidiau ar gyfer pwysau cynyddol ar y gyllideb 2021/22 gan gynnwys i'r maes Anabledd Dysgu, Pobl Hŷn ac Anabledd Corff.

**Gwariant / Grant Covid19** - mae effaith Covid wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith eto eleni gyda dros £1.3 miliwn eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru at y pwysau ychwanegol hyd at ddiwedd Awst.

**Arbedion** - mae methiant i gyflawni arbedion yn ffactor amlwg yng ngorwariant yr adran gyda gwerth £855k yn parhau heb eu gwireddu.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 592 | 579 | (13) | 0 | (13) | (37) |
| Gweithredol | 2,083 | 2,230 | 147 | 0 | 147 | 13 |
| Lleoliadau | | | | | | |
| Lleoliadau All-Sirol | 4,701 | 4,505 | (196) | 0 | (196) | 820 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,633 | 1,504 | (129) | 0 | (129) | 291 |
| Maethu Mewnol | 2,405 | 2,485 | 80 | 0 | 80 | 361 |
| Gwasanaethau Cefnogol ac Eraill | 1,695 | 1,643 | (52) | 0 | (52) | (152) |
| | 10,434 | 10,137 | (297) | 0 | (297) | 1,320 |
| Ôl-16 | 1,239 | 1,355 | 116 | 0 | 116 | 342 |
| Arbenigol/Derwen | 1,834 | 2,093 | 259 | 0 | 259 | 69 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 253 | 216 | (37) | 0 | (37) | (60) |
| Blynyddoedd Cynnar | 145 | 110 | (35) | 0 | (35) | (124) |
| Ieuenctid | 891 | 741 | (150) | 0 | (150) | (216) |
| Eraill | 1,864 | 1,838 | (26) | 0 | (26) | (46) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21 | | | | | 0 | (1,261) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **19,335** | **19,299** | **(36)** | **0** | **(36)** | **0** |

## Plant a Theuluoedd

Yn dilyn dyrannu dros £1.8m o arian ychwanegol i'r adran ar gyfer 2021/22 ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o arbedion, y rhagolygon eleni o ganlyniad yn llawer mwy addawol gyda thanwariant yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gweithredol** - gorwariant ar gynlluniau cefnogol, ond sydd islaw'r lefelau a welwyd cyn cyfnod y Covid, ynghyd â gorwariant ar gostau staff.

**Lleoliadau** - dyraniad bid a dileu arbedion wedi cael effaith sylweddol ar y maes yma sydd wedi bod yn gorwario'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Er y gwelwyd 3 achos lleoliad all-sirol newydd eleni, y nifer cyfartalog lawr i 21 o'i gymharu â 22 ar gyfer 2020/21. Y niferoedd cyfartalog hefyd i lawr ar gyfer maethu drwy asiant sydd yn 31.5 eleni i gymharu gyda 33.4 yn 2020/21. Yn Maethu Mewnol, rhagwelir gorwariant ynghlwm â'r cynllun Tâl am Sgiliau a'r Cynllun Aros Ymlaen.

**Ôl-16** - y pwysau yn parhau ar y gyllideb ac er bod y maes yma wedi bod yn destun bid gwerth £100k eleni, effaith blwyddyn lawn achosion i'w gweld ac felly yn gyfrifol am y gorwariant.

**Arbenigol/Derwen** – effaith cynnydd yn y galw am gynlluniau cefnogol a chefnogaeth arbenigol dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfrifol am y gorwariant, ynghyd â newid yn y pwyslais o ran sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu, gyda phwysau cynyddol ar daliadau uniongyrchol yn amlwg bellach.

**Cyfiawnder Ieuenctid** - trosiant staff yn golygu bod tanwariant ar y pennawd yma.

**Blynyddoedd Cynnar** – defnydd o grantiau yn cyllido gwariant craidd a derbyniad grantiau yn y maes gofal plant yw'r rhesymau am y tanwariant.

**Ieuenctid** – derbyniad grant uwch eleni yn erbyn gwariant craidd ynghyd â thanwariant yn dilyn ail fodelu'r gwasanaeth. Gweithgaredd y gwasanaeth wedi ei amharu gan effaith Covid ac felly llai o wariant o ganlyniad.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 82,534 | 82,534 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | (809) | (1,122) | (313) | 0 | (313) | (237) |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | | | | | | |
| Cludiant | 5,565 | 5,827 | 262 | 0 | 262 | (469) |
| Gwasanaeth Atodol | 486 | 663 | 177 | 0 | 177 | 764 |
| Eraill | 2,967 | 2,916 | (51) | 0 | (51) | (37) |
| | 9,018 | 9,406 | 388 | 0 | 388 | 258 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,241 | 2,112 | (129) | 0 | (129) | (65) |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | 4,997 | 4,962 | (35) | 0 | (35) | (215) |
| Addasiad Cau Cyfrifon 2020/21 | | | | | | 159 |
| **Cyfanswm Addysg** | **97,981** | **97,892** | **(89)** | **0** | **(89)** | **(100)** |

## Addysg

**Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion** - cyfuniad o dderbyniadiau grantiau, trosiant staff, cwtogi ar wariant a lleihad yn y galw ar rai cyllidebau yn gyfrifol am y tanwariant.

**Cludiant** - Er fod £291k o arian ychwanegol wedi ei ddyrannu i'r maes yma ar gyfer 2021/22, mae'r amcangyfrifon diweddaraf yn awgrymu £258k o orwariant ar Gludiant Tacsis. Gwelwyd pwysau ychwanegol ar y gyllideb yn dilyn i gyrsiau addysgol y Grŵp Llandrillo Menai gael eu symud i Llangefni ynghyd â chynnydd am y galw am dacsis ar gyfer disgyblion ysgolion arbennig Hafod Lon a Phendalar.

Mae'r maes Cludiant wedi bod yn destun adolygiad strategol i geisio rheoli'r cynnydd yn y gwariant, gyda'r angen am waith pellach gan yr Adran Addysg a'r Adran Amgylchedd yn parhau, fel bod modd manteisio ar gyfleoedd effeithlonrwydd.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Gwasanaeth Atodol** - gorwariant staff, colledion incwm prydau ysgol ac am yr elfen gofal o'r clybiau brecwast. Gofynion glanhau ychwanegol ysgolion cysylltiedig â Covid hefyd yn amlwg, gyda'r mwyafrif o'r colledion incwm a'r gwariant ychwanegol perthnasol yn cael ei hawlio gan Lywodraeth Cymru.

**Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol - Eraill** - llai o alw ar nifer o gyllidebau amrywiol.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth** - derbyniad grant a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol o'r gyllideb.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o swyddi gwag a thanwariant ar nifer o benawdau amrywiol, tra fod amgylchiadau yn ymwneud ag un ganolfan benodol yn parhau ac yn gyfrifol am orwariant o £222k.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 376 | 376 | 0 | 0 | 0 | (32) |
| Rhaglenni Adfywio a Chefnogi Cymunedau | 374 | 386 | 12 | 0 | 12 | 49 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 446 | 195 | (251) | 0 | (251) | 0 |
| Cytundebau Hamdden | 1,078 | 1,103 | 25 | 0 | 25 | 0 |
| Rhaglenni Chwaraeon | 32 | 32 | 0 | 0 | 0 | (22) |
| Rhaglenni Datblygu Economiadd | (77) | (77) | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Marchnata a Digwyddiadau | 263 | 263 | 0 | 0 | 0 | (16) |
| Llyfrgelloedd Gwynedd | 1,638 | 1,605 | (33) | 0 | (33) | (115) |
| Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd | 912 | 956 | 44 | 0 | 44 | 35 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **5,042** | **4,839** | **(203)** | **0** | **(203)** | **(100)** |

## Economi a Chymuned

**Morwrol a Pharciau Gwledig** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y rhagolygon tanwariant gan gynnwys trosiant staff, rhagori ar incwm yn Hafan Pwllheli, yn sgil y nifer cynyddol o dwristiaid i'r ardal ac felly yn y galw am angorfeydd yn dilyn llacio'r cyfyngiadau Covid dros gyfnod yr haf. Gwelwyd hefyd fod incwm y traethau yn rhagori'r targedau incwm yn dilyn tymor prysur o ran twristiaid i'r ardal.

**Cytundebau Hamdden** - trosglwyddwyd y ddarpariaeth hamdden i Cwmni Byw'n Iach ar 1 Ebrill 2019, ond fod cyfrifoldeb am gostau rhedeg yr eiddo yn aros efo'r Cyngor, o'r tafluniadau diweddaraf rhagwelir y bydd gorwariant o £25k erbyn diwedd y flwyddyn.

Gan fod Covid wedi amharu ar allu'r canolfannau hamdden i agor ac ar ddarpariaeth gwasanaeth, felly wedi cael effaith ar y gallu i gynhyrchu incwm, mae arian i ddigolledu am gostau ychwanegol a cholled incwm Covid wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, sydd yn £1.2 miliwn am hanner cyntaf y flwyddyn ar gyfer Byw'n Iach (£2.7 miliwn yn 2020/21).

**Llyfrgelloedd Gwynedd** - swyddi gwag a throsiant staff sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant.

**Amgueddfeydd, Celfyddydau ac Archifau Gwynedd** - sgil effaith Covid wedi amharu ar y lefelau incwm, bu llithriad yn amserlen agor Neuadd Dwyfor yn dilyn y gwaith adnewyddu, sydd yn ei dro wedi arwain at ddiffyg incwm eleni. Problemau yn parhau yn Storiel gyda rhagolygon o ddiffyg o £38k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | | 9,983 | 9,918 | (65) | 0 | (65) | 89 |
| Gwasanaethau Peirianneg | | 516 | 652 | 136 | 0 | 136 | (14) |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | Gwastraff | 11,082 | 11,745 | 663 | 0 | 663 | 172 |
| | Eraill | 3,996 | 4,244 | 248 | 0 | 248 | (247) |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | | **25,577** | **26,559** | **982** | **0** | **982** | **0** |

## Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Gwasanaethau Priffyrdd** - rhagwelir tanwariant ar benawdau amrywiol gan gynnwys cyllideb gweithiau ffyrdd sydd yn gwrthbwyso'r oediad i wireddu cynlluniau arbedion.

**Gwasanaethau Peirianneg** - methiant i wireddu cynlluniau arbedion gan gynnwys arbedion teledu cylch cyfyng a phont Abermaw ond trafodaethau'n parhau i geisio datrysiad.

**Gwastraff** - nifer o faterion yn gyfrifol am y gorwariant, ond yn bennaf ar gasglu gwastraff ac ailgylchu. Er fod yr adran wedi cymryd camau i leihau costau drwy newid shifftiau a threfniadau cylchdeithiau casglu gwastraff, bu oediad mewn gweithredu. Mae'r trefniadau newydd mewn grym yn Nwyfor ac Arfon, a bellach yn weithredol ym Meirionnydd ers dechrau'r flwyddyn ariannol, felly costau trosiannol cysylltiedig â chostau staffio a salwch yn amlwg. Cynnydd hefyd yn y nifer o dunelledd o wastraff ailgylchu a dosmestig a gesglir sydd yn gynnydd o 13% a 11% ers lefelau 2019. Ymhellach, rhagwelir orwariant ar gostau trin defnyddiau ailgylchu a thrafferthion i wireddu arbedion.

**Gwasanaethau Bwrdeistrefol Eraill** - darlun cymysg sydd yn gyfuniad o ffactorau gyda rhai o'r prif resymau yn cynnwys colledion incwm cynnal tiroedd, pwysau ychwanegol ar gyllidebau gwastraff masnachol, cyfleusterau cyhoeddus a glanhau strydoedd ac arbedion yn parhau heb eu darganfod.

Mae ardrawiad Covid19 wedi cael cryn effaith ar yr adran o ran gwariant ychwanegol a cholled incwm, gyda gwerth bron i £600k eisoes wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru eleni (£2.4m yn 20/21).

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Amgylchedd** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 727 | 645 | (82) | 0 | (82) | (144) |
| Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 393 | 538 | 145 | 0 | 145 | 178 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth) | 357 | 76 | (281) | 0 | (281) | (626) |
| Parcio a Gorfodaeth Parcio | (1,842) | (1,931) | (89) | 0 | (89) | 307 |
| Cludiant Integredig | 1,826 | 1,976 | 150 | 0 | 150 | 306 |
| | 341 | 121 | (220) | 0 | (220) | (13) |
| Cefn Gwlad a Mynediad | 625 | 635 | 10 | 0 | 10 | 1 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 1,603 | 1,522 | (81) | 0 | (81) | (122) |
| **Cyfanswm Amgylchedd** | **3,689** | **3,461** | **(228)** | **0** | **(228)** | **(100)** |

## Amgylchedd

**Rheolaeth** - trosiant staff a thanwariant cyffredinol wedi arwain at arbedion un-tro ar y pennawd Rheolaeth.

**Gwasanaeth Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu** - y tueddiad cyffredinol o ddiffyg incwm yn parhau eto eleni sydd yn cael ei leddfu rhywfaint gan danwariant staff a gwariant is ar amrywiol gyllidebau gan gynnwys rhybuddion statudol ac apeliadau.

**Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth**
**Rheolaeth Rhwydwaith (Trafnidiaeth)** - yn rhagori ar yr incwm ffioedd gwaith stryd, ynghyd â swyddi gweigion a thanwariant ar nifer o benawdau'r gyllideb.

**Parcio a Gorfodaeth Parcio** - tanwariant ar gyllidebau amrywiol gan gynnwys costau cyflogi.

**Cludiant Integredig** - rhagwelir orwariant ar gytundebau bysus cyhoeddus, gyda'r gwaith o gynnal adolygiad i edrych ar y ddarpariaeth wedi ail gychwyn bellach yn dilyn oediad o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

**Gwarchod y Cyhoedd -** trosiant staff a gwariant is ar nifer o benawdau'r gyllideb eleni gan gynnwys samplau bwyd a dŵr ac hysbysebu.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (687) | (789) | (102) | 0 | (102) | (116) |
| Uned Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Rheoli Risg Llifogydd | 584 | 613 | 29 | 0 | 29 | (17) |
| Gwasanaeth Adeiladu | (21) | 22 | 43 | 0 | 43 | 69 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **(124)** | **(154)** | **(30)** | **0** | **(30)** | **(64)** |

## Ymgynghoriaeth

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - rhagolygon o or-gyflawni incwm erbyn diwedd y flwyddyn drwy ddenu rhagor o incwm ar amrywiol gynlluniau gan sefydliadau allanol, megis Cynghorau eraill a Llywodraeth Cymru.

**Uned Rheoli Risg Llifogydd** - rhagwelir gwariant ychwanegol er mwyn sicrhau derbyniad grantiau cyfatebol.

**Gwasanaeth Adeiladu** - diffyg incwm sydd yn cael ei leihau gan danwariant ar staff.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adran Tai ac Eiddo** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 216 | 183 | (33) | 0 | (33) | 171 |
| Gwasanaethau Tai | | | | | | |
| Digartrefedd | 1,108 | 1,161 | 53 | 0 | 53 | (201) |
| Tai Sector Breifat | 393 | 388 | (5) | 0 | (5) | 17 |
| Eraill | 402 | 328 | (74) | 0 | (74) | (24) |
| | 1,903 | 1,877 | (26) | 0 | (26) | (208) |
| Gwasanaethau Eiddo | | | | | | |
| Eiddo | 3,498 | 3,406 | (92) | 0 | (92) | (36) |
| Gofalu, Arlwyo a Glanhau | (11) | (35) | (24) | 0 | (24) | (2) |
| | 3,487 | 3,371 | (116) | 0 | (116) | (38) |
| **Tai ac Eiddo** | **5,606** | **5,431** | **(175)** | **0** | **(175)** | **(75)** |

## Tai ac Eiddo

**Rheolaeth** - tanwariant o ganlyniad i drosiant staff yn gyfrifol am y sefyllfa.

**Gwasanaethau Tai** - unwaith eto eleni yn Digartrefedd rhagwelir bwysau sylweddol ar y gwasanaeth Llety Dros Dro yn deillio o'r argyfwng Covid, o ran symud y digartref oddi ar y stryd, disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn digolledu'r Cyngor am gyfran sylweddol o'r £1.8 miliwn o wariant ychwanegol perthnasol. Pwysau arall amlwg eleni yw costau i gwrdd â chynnal a chadw'r Cynllun Lesu Tai preifat, gyda gwaith dal fyny efo'r ochr cynnal a chadw yn dilyn oediad yn sgil Covid. Yn gydamserol, tanwariant ar gostau staff yn Digartrefedd ac yn y maes Sipsiwn a Theithwyr a Thim Opsiynau Tai dan 'Eraill'.

**Gwasanaethau Eiddo** - swyddi gwag a secondiadau sydd bennaf gyfrifol am y tanwariant a ragwelir ar yr ochr Eiddo, gyda chyfuniad o lai o wariant ar eiddo a gwasanaethau a chyflenwadau yn lleddfu'r golled incwm a gorwariant staff yn y maes glanhau.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,076 | 1,982 | (94) | 0 | (94) | (100) |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 6,616 | 6,554 | (62) | 0 | (62) | (86) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,108 | 7,016 | (92) | 0 | (92) | (100) |
| **Cyfanswm Adrannau Canolog** | **15,800** | **15,552** | **(248)** | **0** | **(248)** | **(286)** |

## Adrannau Canolog

**Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** - trosiant staff a swyddi gwag yn gyfrifol am y tanwariant gyda chyfran o'r tanwariant yn deillio o swydd wag y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)** - cyfuniad o resymau yn gyfrifol am y tanwariant, gan gynnwys tanwariant un-tro oherwydd swyddi gwag a chyfnodau mamolaeth ynghyd â derbyniad incwm mewn nifer o feysydd.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - trosiant staff a rhagori ar incwm gan nifer o wasanaethau, er hyn, sgil effaith Covid wedi cael goblygiadau negyddol ar incwm mewnol yr Argraffdy, gyda rhagolygon o ddiffyg incwm o £58k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Tanwariant ar wasanaethau a chyflenwadau ar draws yr adran hefyd yn cyfrannu at y sefyllfa tanwariant cyffredinol.

**CYLLIDEB REFENIW 2021/22 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST**

| **Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2021/22 | Amcan Sefyllfa 2021/22 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2021/22** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Addasedig 2021/22** | Gor/(Tan) Wariant Net Sefyllfa Terfynol 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth Cyngor a Premiwm Treth y Cyngor | * | * | (302) | 302 | 0 | 0 |
| Gostyngiadau Treth Cyngor | * | * | (577) | 577 | 0 | 0 |
| Costau Cyfalaf | * | * | (285) | 285 | 0 | 0 |
| Derbyniad Llog | * | * | (103) | 103 | 0 | 0 |
| Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau | * | * | (245) | 245 | 0 | 0 |
| Incwm uwchlaw y gyllideb | * | * | (80) | 80 | 0 | 0 |
| Eraill | * | * | (650) | 650 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | ***** | ***** | **(2,242)** | **2,242** | **0** | **0** |

## Corfforaethol

| |
|---|
| **Treth Cyngor a Premiwm Treth Cyngor** - hyd at ddiwedd Awst, bu i Swyddfa'r Prisiwr ganiatau 178 eiddo i drosglwyddo o Dreth Cyngor i Drethi Annomestig (506 yn 2020/21, 397 yn 2019/20, 453 yn 2018/19). Er hyn, rhagwelir sefyllfa ffafriol o gynnyrch treth ychwanegol oherwydd rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22. Mae £6.5m o Bremiwm Treth Cyngor wedi ei raglennu i'w dderbyn yn ystod 2021/22 i'w neilltuo i'w ystyried ar gyfer y Strategaeth Dai.<br><br>**Gostyngiadau Treth Cyngor** - lleihad yn y niferoedd sydd yn hawlio'r gostyngiad yng Ngwynedd o'i gymharu â 2020/21 ynghyd â gosod amcangyfrifon darbodus.<br><br>**Costau Cyfalaf** - polisi rheolaeth trysorlys presennol yn golygu gellid osgoi benthyca allanol sydd yn creu tanwariant yn erbyn y gyllideb costau cyfalaf. Awgrymir y dylid dargyfeirio'r tanwariant i gronfa i ddefnyddio i gynorthwyo gydag ariannu'r rhaglen gyfalaf.<br><br>**Derbyniad Llog** - rhagolygon y bydd yn derbyniad llog yn rhagori'r targed disgwyliedig.<br><br>**Cyllidebau a Bidiau a ddychwelwyd gan Adrannau ac Eraill** - y pwysau ar nifer o gyllidebau ddim cymaint â'r hyn a ragwelwyd eleni. |
| **Argymhellir** fod (£285k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf, gyda gweddill y tanwariant net ar gyllidebau Corfforaethol, sef (£1,957k) yn mynd i'r Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid. |